# Datganiad Ysgol Dyffryn Dulas
# Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

**Trosolwg Ysgolion**

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Dyffryn Dulas, Corris |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 33 (yn cynnwys 4 Meithrin) |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | 9.1% |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | 25/9/26 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | Medi 2027 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Nia Wyn Thomas-Evans |
| Yn arwain ar y GDD | Nia Wyn Thomas-Evans |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Dennis Jones |

**Trosolwg Cyllid**

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | £ **** (llai na 5 disgybl) |
| | |
| | |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £ **** (llai na 5 disgybl) |

**Rhan A: Cynllun Strategaeth**

**Datganiad o fwriad**

| |
|---|
| Codi safonau academaidd disgyblion PYDd drwy ddarparu cymorth unigol ac mewn grwpiau bach<br><br>Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion<br><br>Datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion PYDd i wella hyder a chymhelliant<br><br>Sicrhau mynediad cyfartal at brofiadau cyfoethog y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth – tripiau, tripiau preswyl, cyfrannu i bwyllgorau ysgol.<br><br>Cefnogi teuluoedd disgyblion PYDd – gwisg ysgol am ddim, eu hannog i ddefnyddio'r clwb brecwast |

**Canlyniadau a fwriedir**

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

| Canlyniad a fwriedir | Meini prawf llwyddiant |
|---|---|
| Darparu ymyraethau llythrennedd a rhifedd i unigolion ac mewn grwpiau bach yn ogystal a strategaethau eraill sydd wedi'u cynllunio i bersonoli dysgu a thargedu cymorth - Ymyrraeth Llythrennedd, Precision Teaching | Disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd |
| Darparu cefnogaeth bersonol a mentora i ddiwallu anghenion emosiynol disgyblion, cael gwared ar rwystrau i ddysgu a gwella lles<br><br>Disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu<br>Disgyblion yn elwa o sesiynau ELSA, Check-ins rheolaidd | Disgyblion yn ymdopi'n dda yn ystod gwersi ac yn ystod amseroedd llai strwythedig<br><br>Disgyblion yn barod i ddysgu – yn dangos hyder yn eu gallu eu hunain, yn dangos cymhelliant ac annibyniaeth yn eu dysgu |
| Talu hanner y costau am ddisgyblion PYDd (Blwyddyn 3-6) i fynychu Glanllyn ac i fynd ar dripiau ysgol ystafell ddosbarth | Pob disgybl yn cael mynediad cyfartal at brofiadau cyfoethog tu hwnt i'r ystafell ddosbarth |

**Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon**

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

| |
|---|
| Cyfraniad at gyflog Cynorthwyydd Addysgu yn nosbarth 7-11 oed i gefnogi'r dysgwyr<br><br>Amserlenni cynorthwywyr yn yr ysgol i ddarparu sesiynau llythrennedd a rhifedd ychwanegol i unigolion, darparu ymyraethau llythrennedd a rhifedd mewn grwpiau bach yn ogystal a strategaethau eraill sydd wedi'u cynllunio i bersonoli dysgu a thargedu cymorth<br><br>Cyflwyno sesiynau ELSA i ddarparu cefnogaeth bersonol a mentora i ddiwallu anghenion emosiynol disgyblion, cael gwared ar rwystrau i ddysgu a gwella lles disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu<br><br>Y Pennaeth i sicrhau bod disgyblion PYDd yn mynychu trip Preswyl Blwyddyn 3-6 i Glanllyn am hanner y pris a thripiau ysgol yn ystod y flwyddyn |

**Dysgu ac addysgu**

Cost wedi'i chyllidebu: ****

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Cynorthwywyr dosbarth yn yr ysgol i ddarparu sesiynau llythrennedd a rhifedd ychwanegol i unigolion, darparu ymyraethau llythrennedd a rhifedd mewn grwpiau bach yn ogystal a strategaethau eraill sydd wedi'u cynllunio i bersonoli dysgu a thargedu cymorth h.y. Precision Teach ac Ymyrraeth Llythrennedd | Tystiolaeth o flynyddoedd blaenorol yn dangos bod disgyblion sy'n cael cymorth unigol neu mewn grwpiau bach yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd |

**Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)**

Cost wedi'i chyllidebu: £ ****

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Cynorthwydd dysgu wedi'u hyfforddi i gyflwyno sesiynau ELSA i ddarparu cefnogaeth bersonol a mentora i ddiwallu anghenion emosiynol disgyblion, cael gwared ar rwystrau i ddysgu a gwella lles disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu | Lles y disgyblion sy'n derbyn cymorth ELSA yn well a'r disgyblion yn dangos gwell cymhelliant a hyder |
| Y Pennaeth i sicrhau bod disgyblion PYDd yn mynychu trip Preswyl Blwyddyn 3-6 i Glanllyn am hanner y pris a thripiau ysgol i bob disgybl yn ystod y flwyddyn | Rydym wedi bod yn cyfrannu hanner y costau i dalu am dripiau preswyl a thripiau ysgol ers nifer o flynyddoedd – hyn yn sicrhau bod pob un disgybl yn cael yr un cyfleoedd heb unrhyw stigma |

Cyfanswm cost y ceisiadau: £****

**Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol**

**Canlyniadau'r GDD**

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2025-2026

| Gweithgarwch | Effaith |
|---|---|
| Cyfraniad at gyflog Cynorthwyydd Addysgu yn Nosbarth 3-7 oed | Disgyblion unigol yn cael mwy o gefnogaeth yn y Dosbarth dysgu Sylfaen sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu lles nhw eu hunain a lles eraill<br><br>Mae ein disgyblion ieuangaf yn ymgartrefu'n gynt yn yr ysgol ac yn fwy parod i gydymffurfio |

| | |
|---|---|
| Darparu sesiynau llythrennedd a rhifedd ychwanegol i unigolion, darparu ymyraethau llythrennedd a rhifedd mewn<br><br>Grwpiau bach yn ogystal a strategaethau eraill sydd wedi’u cynllunio i bersonoli dysgu a thargedu cymorth h.y. Precision Teach, Ymyrraeth Llythrennedd a targedau ThIaLl | Sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gwella (gweler canlyniadau profion Mathemateg, Precision Teach, profion sillafu a Phrofion Cenedlaethol) |
| Darparu cefnogaeth bersonol i ddiwallu anghenion emosiynol disgyblion, cael gwared ar rwystrau i ddysgu a gwella lles disgyblion a’u parodrwydd i ddysgu – ELSA | Disgyblion yn dangos mwy o hyder yn eu gallu nhw eu Hunain<br>Disgyblion yn dangos mwy o hunan-gred ac yn fwy gwydn<br>Disgyblion yn fwy parod i ddysgu ac arddangos gwell iechyd meddwl |
| Cyfraniad tuag at daliadau ddisgyblion PYDd i fynychu Glanllyn ac i fynd ar dripiau ysgol / | Pob un disgybl yn cael yr un profiadau a’i gilydd<br>Teuluoedd yn ddiolchgar am gymorth ariannol yn ystod cyfnodau anodd |

**Rhaglenni a ddarperir yn allanol**

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

| Rhaglenni brynwyd (Dim trwy cyllid GDD) | Darparwr |
|---|---|
| Darllen.Co | |
| TTRS | |
| Seesaw | |
| | |